Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **16 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio

**Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn diwygio'r rheoliadau a ganlyn:**

- Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009 yn gweithredu Cyfarwyddeb 2006/88/EC.

- Mae Rheoliadau Rhywogaethau Estron a Rhywogaethau sy'n Absennol yn Lleol mewn Dyframaeth (Cymru a Lloegr) 2011 yn gweithredu Rheoliad y Cyngor 708/2007**.**

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae'r OSau (pan fônt yn berthnasol i Gymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol.

**Diben y diwygiadau**
Diben yr OS hwn (y weithdrefn negyddol), i'w gyflwyno gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), yw sicrhau bod deddfwriaeth yr UE ym meysydd iechyd anifeiliaid dyfrol a rhywogaethau estron mewn dyframaethu yn parhau i fod yn weithredadwy ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Ni fydd yr offeryn yn cyflwyno unrhyw newidiadau polisi.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma:
https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-aquatic-animal-health-and-alien-species-in-aquaculture-amendment-england-and-wales-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.